**AELODAU O'R CYHOEDD YN ANNERCH Y PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU – GWEITHDREFNAU GWEITHREDU**

**GWEITHDREFNAU GWEITHREDU**

Mae'r Cyngor wedi penderfynu rhoi hawl i drydydd parti i siarad yn y Pwyllgor Rheoli Datblygu ("y Pwyllgor").

Mae'r ddogfen hon yn esbonio'r gweithdrefnau y bydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn eu mabwysiadu pan fydd aelod o'r cyhoedd yn gwneud cais ysgrifenedig i annerch y Pwyllgor.

## 1. PA FATERION Y GELLIR TYNNU SYLW'R PWYLLGOR ATYNT?

Gellir tynnu sylw'r Pwyllgor at amrediad eang o faterion, fodd bynnag o dan y Deddfau Cynllunio perthnasol, mae'n rhaid i benderfyniadau yn ymwneud â cheisiadau cynllunio fod yn unol â'r gyfraith, cynlluniau datblygu a chanllawiau cenedlaethol, oni bai bod ystyriaethau eraill yn ddigon pwysig i gyfiawnhau penderfyniad sydd i'r gwrthwyneb. Ni all y Cyngor wrthod caniatâd cynllunio am yr unig reswm fod gwrthwynebiadau wedi eu cyflwyno, ac ni allant gymeradwyo cais am yr unig reswm fod nifer o bobl yn ei gefnogi neu oherwydd nad oes gwrthwynebiadau.

**Mae'r materion yr ydych yn eu codi yn parhau i fod yn berthnasol, e.e.**

- Deddfwriaeth berthnasol a'r polisïau yn y cynlluniau datblygu perthnasol a chanllawiau cynllunio cenedlaethol.
- Cyfraith achos berthnasol a phenderfyniadau ar apeliadau cynllunio blaenorol o flaen Arolygydd.
- Yr effaith ar gymeriad ac ymddangosiad yr ardal, e.e. safle, graddfa, maint, uchder a chynllun
- Yr effaith ar fwyniant preswylwyr cyfagos e.e.oriau defnydd, edrych dros eiddo arall, amharu gormodol a sŵn traffig.

- Yr effaith ar ddiogelwch ar y briffordd, e.e. gwelededd gwael, dioglewch cerddwyr, parcio, dwysedd defnydd

**Gellir rhoi ychydig neu ddim sylw i faterion nad ydynt yn ystyriaethau cynllunio perthnasol ac sydd yn faterion preifat, e.e.**

- Sefydlogrwydd tir, draenio, rhagofalon tân, hylendid a chynllun yr ardaloedd mewnol (mae'r rhain yn cael eu delio â hwy yn bennaf o dan ddeddfwriaeth sydd ar wahân i Gynllunio e.e. Rheoliadau Adeiladu)

- Nodweddion personol yr ymgeiswyr, gan gynnwys oedran, hil a iaith

- Anghytundeb yn ymwneud â pherchnogaeth y tir a effeithir

- Hawliau tramwy preifat a draenio a hawddfreintiau a chyfamodau preifat

- Effaith yr argymhelliad ar werth yr eiddo

- Cystadleuaeth fasnachol, e.e. rhwng siopau, tai bwyta, garejys ayb

- Colli golygfa

**2. SUT I WNEUD CAIS I SIARAD YN Y PWYLLGOR?**

Mae'r weithdrefn sydd i'w dilyn wrth wneud cais yr un fath i bawb sydd yn dymuno siarad â'r Pwyllgor. Eich cyfrifoldeb chi yw darganfod a yw cais arbennig yr ydych yn dymuno siarad ynglŷn ag ef i'w gyflwyno i'r Pwyllgor neu ei ystyried o dan bwerau dirprwyol. Gallwch ddarganfod hyn drwy gysylltu â'r Adain Gynllunio ar 01545 572135 neu drwy wefan y Cyngor planning@ceredigion.gov.uk; info@ceredigion,gov.uk;.

**Mae'n rhaid i chi gyflwyno cais ysgrifenedig er mwyn siarad â'r Clerc Pwyllgor cyn gynted â phosibl ac nid hwyrach na chanol dydd ar y Dydd Mawrth cyn y Pwyllgor** (sydd fel arfer yn cwrdd ar Ddydd Mercher). Y manylion cyswllt ar gyfer y Clerc yw'r Adain Weinyddiaeth, Adran y Prif Weithredwr, Penmorfa, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0PA (cyfeiriad e-bost: democracy@ceredigion.gov.uk <mailto:democracy@ceredigion.gov.uk>)

Dylech gynnwys enw a manylion cyswllt yn eich cais, gan gynnwys rhif teliffon yn ystod y dydd, ac e-bost os oes un, manylion am gais cynllunio penodol a rhif cyfeiriad os yn bosibl.

Ni chaniateir i chi siarad oni bai bo'r cais ar agenda'r Pwyllgor.

Bydd pawb sydd yn hysbysu'r Adain Gynllunio eu bod am siarad yn cael gwybod ar y ffôn, yn ysgrifenedig neu drwy e-bost am fanylion y cyfarfod, o leiaf dri diwrnod gwaith cyn y cyfarfod.  Gellir archwilio adroddiadau ar agenda'r Pwyllgor yn y cyfarfod.

Bydd yr ymgeisydd/asiant yn cael ei hysbysu os nad ydyw wedi gofyn am gael siarad yn y Pwyllgor, ac os derbynnir hysbysiad oddi wrth wrthwynebwr yn mynegi ei fod yn dymuno siarad, fel y gall arfer ei hawl i ymateb yn y Pwyllgor.

Dim ond yr ymgeisydd, ei asiant, neu'r rhai hynny sydd wedi cyflwyno gwrthwynebiadau neu sylwadau ysgrifenedig o fewn y cyfnod ymgynghori  21 niwrnod a all wneud cais i i annerch y cyfarfod.

Ni fydd eitemau yn cael eu gohirio am fod rhywun sydd wedi gofyn am hawl i siarad yn methu â bod yn bresennol yn y Pwyllgor ar ddyddiad arbennig.

## 2. GWEITHDREFN YN Y PWYLLGOR

Caniateir cyfnod o bum munud yr un i bob siaradwr.  Os bydd mwy nag un gwrthwynebydd eisiau siarad, bydd gwrthwynebwyr yn cael eu hannog i benodi un siaradwr neu rannu'r munudau sydd ar gael.  Bydd gan y Cadeirydd y Pwyllgor ddisgresiwn llwyr i reoli'r cyfryw faterion.

Mae'r gorchymyn priodol ar gyfer siarad fel a ganlyn:- achos yn cael ei gyflwyno gan swyddog, ymgeisydd neu asiant, Cynghorau Cymuned a Thref, Aelodau'r Pwyllgor.

Oni bai bo Cadeirydd y Pwyllgor yn nodi fel arall, bydd y ceisiadau cynllunio yn cael eu hystyried yn y drefn y maent yn ymddangos ar yr agenda, a ni fydd yn bosibl gohirio cais gan na fedrent fod yn bresennol neu gan nad ydynt yn barod i siarad pan fydd y Cadeirydd yn cyflwyno'r cais.  Mae gwybodaeth ynglŷn â'r gorchymyn ar yr agenda ar gael o'r Adain Gynllunio.

Mae'n rhaid i chi fod yn bresennol yn y Pwyllgor sydd yn cyfarfod rhwng 9.45 a 10am a chyflwyno eich hun i Glerc y Pwyllgor. Mae'r Pwyllgor fel arfer yn dechrau am 10.00 am. Bydd y Clerc yn esbonio'r trefniadau a lle y byddwch yn eistedd pan fyddwch yn siarad.

Pan wahoddir chi gan Gadeirydd y Pwyllgor, gallwch siarad unwaith, am hyd at bum munud, a phwysleisir pwysigrwydd cadw at yr amser penodedig. Nid oes angen ailadrodd pob pwynt a wneir mewn unrhyw lythyron, gan y bydd y rhain eisoes wedi cael eu hanfon at aelodau cyn y Pwyllgor. Cynghorir chi i ganolbwyntio ar y prif bwyntiau sydd yn achosi pryder i chi, neu'r pwyntiau yr ydych yn eu cefnogi. Ni chaniateir i chi ddosbarthu unrhyw ddefnydd ysgrifenedig na lluniau oni bai i'r rhain gael eu cynnwys gyda 'r cais ysgrifenedig i'r Clerc fel uchod.

Ar ôl siarad mae'n rhaid i chi ganiatáu i'r Pwyllgor drafod y mater, ac ni ddylech ymuno â'r drafodaeth. Gall y Cadeirydd ofyn cwestiwn/cwestiynau os bydd angen esboniad pellach ar y pwyntiau a wneir.

**3. PENDERFYNIAD Y PWYLLGOR**

Gwneir penderfyniadau fel arfer yn y cyfarfod, ond weithiau gellir gohirio penderfyniad hyd y cyfarfod canlynol, er mwyn trefnu ymweliad safle gan y Pwyllgor am resymau eraill. Yn sicr ni fydd cyfle i aelodau o'r cyhoedd siarad am yr eitem a ohiriwyd mewn ail gyfarfod neu gyfarfod pellach.

Bydd yr Adain yn hysbysu'r ymgeisydd/asiant ynglŷn â'r penderfyniad ar ôl dyddiad cyfarfod o'r Pwyllgor a bydd yn hysbysu pawb sydd wedi ysgrifennu at y Cyngor am ganlyniad y cais.

**3. GWYBODAETH YCHWANEGOL**

Os ydych am gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â beth sydd yn digwydd yn y Pwyllgor Rheoli Datblygu neu os ydych am esboniad ynglŷn â'r math o benderfyniadau mae'r Pwyllgor yn medru ei wneud, cysylltwch â'r Adain Gynllunio ar 01545 572135 neu drwy e-bost at planning@ceredigion.gov.uk <mailto:planning@ceredigion.gov.uk>.